

Cylchlythyr Ysgol Gynradd Gorseinon


Rhifyn 5, Mawrth 2020

Y Newyddion

Ers cyhoeddi'r cylchlythyr diwethaf ym mis Rhagfyr, mae'r gwaith wedi mynd rhagddo'n dda gyda'r prif weithgareddau'n cael eu cwblhau yn unol â'n rhaglen waith. Mae'r gwaith a orffennwyd hyd yn hyn yn cynnwys y canlynol;

- Drysau a ffenestri
- Waliau mewnol

Gan fod yr adeilad bron yn ddwrglos, gellir gweld nodweddion allweddol yn yr ysgol. Mae'r waliau mewnol yn yr ysgol wedi'u cwblhau, sy'n golygu y gall y disgyblion sefyll yn eu hystafelloedd dosbarth a'r stryd dysgu a chael gwell dealltwriaeth o sut bydd yr ysgol newydd pan fydd wedi'i gorffen yn ystod eu hymweliad nesaf â'r safle.



Yn dathlu 150 mlynedd ym maes adeiladu



Y gwaith sydd ar ddod

Mae'r gwaith a gynllunnir ar gyfer yr wythnosau nesaf yn cynnwys y canlynol:

- Gosod carthffos a chyfleustodau. Gall fod ffyrdd yn cau tua diwedd mis Mawrth 2020 o ganlyniad i hyn. Cadwch lygad ar ddolen Gwyllo Ffyrdd Cyngor Abertawe am fanylion yn agosach at yr amser www.abertawe.gov.uk/gwylloffyrdd
- Gosod y cae chwaraeon 2G


Prentisiaid ac Ymgysylltu Addysgol

I ddathlu Wythnos Genedlaethol Prentisiaethau 2020 #NAW2019 (3-7 Chwefror), rydym wedi dangos rhai o'r prentisiaid gwych sy'n gweithio i Andrew Scott Ltd yn ddiweddar. Dangoswyd #PrentisYDydd ac mae dau o'r prentisiaid a ddangoswyd yn gweithio ar safle Gorseinon ar hyn o bryd.

Jordan Jones, ein Prentis Technegol a Rennir gyda chwmni Cyfle Building Skills, oedd prentis y dydd ar y dydd Llun. Daeth Jordan i Andrew Scott Ltd am leoliad profiad gwaith yn ein Hadran Amcangyfrif yn ystod yr haf a phenderfynodd ddechrau ei yrfa ym maes adeiladu ar ôl hynny. Mae Jordan yn gweithio gyda Rheolwr y Prosiect, Tom a Syrffewr Meintiau'r Prosiect, Lucy James.

Nathan McLaughlin, un o'n Prentisiaid Gosod Briciau presennol, oedd prentis y dydd ar y dydd Mawrth. Dechreuodd Nathan Brentisiaeth Gwaith Sylfaen yn y lle cyntaf, ond penderfynodd fod ganddo ddiddordeb mewn gosod briciau, felly newidiodd ei faes astudio a dechreuodd ei gwrs presennol ym mis Medi 2019.

Buom hefyd yn ymweld ag Ysgol Pentrefafod i gefnogi Cystadleuaeth Adeiladu Dosbarth Busnes Blwyddyn 9 Gyrfa Cymru. Nod y gystadleuaeth yw annog disgyblion i ddylunio cartref sy'n addas ar gyfer y dyfodol, gan ddefnyddio ynni adnewyddadwy a deunyddiau o ffynonellau cynaliadwy.



Slip Sylwadau — Helpwch ni i'ch helpu chi!

Dychwelwch y slip i swyddfa'r safle, neu postiwch ef i: Andrew Scott Ltd, The Grange, Port Talbot SA13 2SP. Fel arall, mae croeso i chi e-bostio'n Rheolwr Prosiect, Tom Rees, yn thomas.rees@andrewscott.co.uk

Enw:.....

Ffôn/E-bost:.....

Beth ydych chi'n falch ohono/beth yw'ch pryderon?

.....

Oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch sut y gallwn wella'n gwasanaeth yn yr ardal leol?

.....Cylchlythyr | Andrew Scott Ltd.....